OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1713 (Cy.150)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*13 Mehefin 2007*
Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*14 Mehefin 2007*
Yn dod i rym - -	*10 Gorffennaf 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 75 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach (**2**), drwy hyn yn gwneud y rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2007. Deuant i rym ar 10 Gorffennaf 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Rhagarweiniol

2. Diwygir Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006(**3**) fel a ganlyn.

Diwygio rheoliad 3 (ffioedd arolygu)

3. Yn rheoliad 3, ym mharagraffau (1) ac (8), yn lle "£21.00" rhodder "£24.00".

(**1**) 1991 p.22.

(**2**) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 75 a 104(1) eu trosglwyddo, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Amnewidiwyd adran 75 yn rhagolygol gan adran 58(2) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18). Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau 75 a 104(1) dywededig eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 2006/1532 (Cy.150).